

Adroddiad ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

Hydref 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
X: **@SeneddDCC**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

Hydref 2025



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.

Ceir ei gylch gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddDCC

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Samuel Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig



Adam Price AS
Plaid Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



John Griffiths AS
Llafur Cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	5
	Diben y Bil	5
	Cylch gorchwyl y Pwyllgor	6
2.	Cymhwysedd deddfwriaethol	8
	Ein barn ni.....	9
3.	Sylwadau cyffredinol	10
	Datblygu'r Bil a'r angen amdano.....	10
	Hygyrchedd y ddeddfwriaeth.....	11
	Cydbwysedd rhwng y manylion ar wyneb y Bil a phwerau dirprwyedig.....	12
	Gweithrediad arfaethedig y Bil	13
	Materion cyffredinol	15
	Ein barn ni.....	17
4.	Sylwadau penodol.....	20
	Rhan 1 y Bil.....	20
	Adran 1 – ystyr “o dan fygythiad o ddigartrefedd”	20
	Adran 12 – Ystyr cysylltiad lleol.....	22
	Adrannau 21 a 22 – Dyletswydd i ofyn a gweithredu.....	24
	Adran 33 – Cydweithrediad rhwng landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol.....	29
	Ein barn ni.....	30
	Rhan 2 y Bil.....	31
	Adran 35 – Dyrannu llety tai o dan Ran 6 Deddf Tai 1996	31
	Adran 36 – Dim ffafriaeth i bersonau sy'n ceisio manipiwleiddio'r system dai	32
	Adran 38 – Cofrestrau tai	33

Ein barn ni.....	34
Rhan 3 y Bil	35
Adran 40 ac Atodlen 1 – Môn ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol.....	35
Ein barn ni.....	35

1. Cyflwyniad

Ar 19 Mai 2025, cyflwynodd Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (Ysgrifennydd y Cabinet), y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) (y Bil) i'r Senedd.¹

1. Gosododd Ysgrifennydd y Cabinet Femorandwm Esboniadol cysylltiedig hefyd, sy'n ymgorffori'r asesiad effaith rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol², a chyhoeddodd ddatganiad ysgrifenedig.³
2. Cyhoeddwyd Datganiad o Fwriad y Polisi hefyd ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil.⁴
3. Ar 20 Mai 2025, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad llafar yn y cyfarfod llawn ynghylch y Bil.⁵
4. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai er mwyn iddo ystyried ei egwyddorion cyffredinol ac adrodd arnynt, erbyn y dyddiad cau, sef 17 Hydref 2025.⁶

Diben y Bil

5. Yn y Memorandwm Esboniadol, nodâ Ysgrifennydd y Cabinet fod y Bil yn diwygio'r ddeddfwriaeth digartrefedd a thai bresennol yng Nghymru drwy ddiwygio Rhan 2 o *Ddeddf Tai (Cymru) 2014* (Digartrefedd) (Deddf 2014) a Rhan 6 o *Ddeddf Tai 1996* (Dyrannu llety tai) (Deddf 1996) i wella'r dulliau o atal a lleddfu digartrefedd yng Nghymru. I raddau llai, mae'r Bil hefyd yn diwygio *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.⁷

¹ Y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, 19 Mai 2025

² Memorandwm Esboniadol ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, Mai 2025

³ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), 19 Mai 2025

⁴ Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth, Mai 2025

⁵ Y Cyfarfod Llawn, 20 Mai 2025

⁶ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), Mai 2025

⁷ Memorandwm Esboniadol, tudalen 6, paragraff 11

6. Mae'r Bil yn cynnig:

- Diwygio'r deddfwriaeth bresennol ar ddigartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol i gefnogi'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru;
- ceisio cynyddu nifer y bobl sy'n gymwys am gymorth digartrefedd ac annog gwaith atal cynharach drwy roi diwedd ar y profion ynglŷn ag angen blaenoriaethol a bwriadoldeb, a thrwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol helpu i atal digartrefedd os yw'n debygol y bydd ceisydd yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis;
- ymestyn dyletswyddau cyfreithiol i gyrff cyhoeddus penodedig 'ofyn a gweithredu', gan fynd ati i adnabod pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref a'u cyfeirio at gymorth.

7. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi y bydd y Bil:

- yn ehangu mynediad at wasanaethau digartrefedd a rhoi cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen fwyaf;
- yn ehangu cyfrifoldeb i rai awdurdodau cyhoeddus penodedig am adnabod unigolion sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac ymateb yn effeithiol;
- yn blaenoriaethu'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.⁸

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

8. Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

9. Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i'r Senedd, byddwn yn ystyried:

⁸ Memorandwm Esboniadol, tudalen 3, paragraff 1

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys cydnawsedd â'r hawliau dynol a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr ECHR);
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi'i dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall yr ydym yn ystyried ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

10. Clywsom dystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet ar 23 Mehefin 2025.⁹

11. Fe wnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet ar 27 Mehefin 2025¹⁰, a chawsom ateb ar 17 Gorffennaf 2025¹¹.

Argymhelliad 1. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y cynhelir dadl Cyfnod 1 ar yr egwyddorion cyffredinol.

⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025

¹⁰ Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Mehefin 2025

¹¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 17 Gorffennaf 2025

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹²

12. Ar 19 Mai 2025, dywedodd y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, yn ei barn hi:

"... byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ni fyddai'r darpariaethau a ganlyn o fewn cymhwysedd oherwydd bod angen cydsyniad Llywodraeth y DU ar eu cyfer ac ni chafwyd cydsyniad o'r fath hyd yn hyn:

- *Adran 14 – Dyletswyddau i geiswyr mewn achosion atgyfeirio*
- *Adran 21 – Dyletswydd awdurdod cyhoeddus i ofyn a gweithredu*
- *Adran 22 – Dyletswydd i atgyfeirio personau yn Lloegr at awdurdod tai lleol yng Nghymru*
- *Adran 32 – Cydweithredu.*"¹³

13. Pan roddodd Ysgrifennydd y Cabinet dystiolaeth inni ar 23 Mehefin 2025, cadarnhaodd ei bod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn amodol ar gael cydsyniad Gweinidog y Goron ar gyfer nifer fach o ddarpariaethau.¹⁴ Gofynnwyd pryd yr oedd hi'n disgwyl cael y cydsyniadau hynny, ac atebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"... we wrote to Secretary of State for Wales on 1 April to seek those Minister of the Crown consents for those sections, and my colleagues and my officials are working closely with the Wales

¹² Memorandwm Esboniadol, tudalen 4

¹³ Datganiad y Llywydd ar Cymhwysedd Deddfwriaethol, 19 Mai 2025

¹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [10]

Office and UK Government departments to manage the consents process.”¹⁵

14. Gofynnwyd hefyd pa ystyriaeth a roddwyd i hawliau dynol wrth baratoi'r Bil. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“... as with all Senedd Bill proposals, Welsh Government carries out a full human rights assessment before the introduction. We are satisfied that the provisions of the Bill are compliant. The provisions of the Bill have reasonable foundation, do strike a fair balance between the demands of the general interest of the community and the protection of individuals' fundamental rights.”¹⁶

Ein barn ni

15. Nodwn y dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â materion cymhwysedd deddfwriaethol.

16. Nodwn hefyd fod Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn y bydd angen cydsyniad Gweinidog y Goron mewn perthynas ag adrannau 14, 21, 22 a 32. Rydym yn cydnabod mai cyfrifoldeb Ysgrifennydd y Cabinet yw gofyn am y cydsyniad hwn a'i gael.

17. Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â hawliau dynol. Fel y nodwyd gennym yn flaenorol¹⁷, credwn y dylid cynnwys asesiad o ymgysylltiad Bil â'r hawliau a ddiogelir gan yr ECHR fel mater o drefn o fewn y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ac y dylai'r asesiad hwnnw hefyd nodi unrhyw gamau a gymerwyd i wneud yr ymgysylltiad hwnnw'n gymesur. Credwn y byddai dilyn y dull hwn o gymorth i Aelodau'r Senedd wrth iddynt ystyried Bil.

Casgliad 1. Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas ag effaith y Bil ar hawliau dynol ond credwn y dylai'r Memorandwm Esboniadol, fel mater o arfer da, bob amser gynnwys sylwadau ar yr ystyriaeth a roddwyd i oblygiadau o'r fath.

¹⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [12]

¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [14]

¹⁷ Gweler, er enghraifft, gasgliad 1 ein [Hadroddiad ar Fil y Gymraeg ac Addysg \(Cymru\)](#), casgliad 1 ein [Hadroddiad ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig \(Cymru\)](#) a chasgliad 1 ein [Hadroddiad ar Fil yr Amgylchedd \(Ansawdd Aer a Seinweddau\) \(Cymru\)](#).

3. Sylwadau cyffredinol

Datblygu'r Bil a'r angen amdano

18. Yn 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd¹⁸ (y Grŵp Gweithredu) i argymhell y camau y mae angen eu cymryd i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

19. Yn 2020¹⁹, nododd y Grŵp Gweithredu argymhellion i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nod o sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog, ac nad yw'n digwydd eto.²⁰

20. Roedd argymhellion y Grŵp yn cynnwys nifer o gynigion deddfwriaethol. Argymhellodd gryfhau'r camau cynnar i geisio atal digartrefedd drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynorthwyo ceisydd os yw'n debygol o golli ei gartref o fewn chwe mis, yn hytrach na 56 diwrnod. Galwodd y Grŵp hefyd am ddiddymu'r profion o ran angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol.

21. Ar ôl i'r Grŵp gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru, comisiynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio ar y pryd, Julie James AS, yr elusen digartrefedd Crisis i greu grŵp pellach, y Panel Adolygu Arbenigol²¹. Ym mis Medi 2023, gwnaeth y grŵp hwn argymhellion manwl i Lywodraeth Cymru ar sut y dylid diwygio deddfwriaeth.²²

22. Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd.²³

23. Gan gydnabod y Papur Gwyn hwn, fe wnaethom ofyn pam na chyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddrafft o'r Bil i ymgynghori arno cyn iddo gael ei gyflwyno. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid dros gyfnod maith, gan gynnwys siarad â phobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod y darpariaethau yn y Bil fel y'u cyflwynwyd yn cyd-fynd yn agos â'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn. Felly, ym marn

¹⁸ Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd

¹⁹ Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiadau

²⁰ Llywodraeth Cymru, Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026

²¹ Panel Adolygu Arbenigol

²² Panel Adolygu Arbenigol, Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Adolygiad Deddfwriaethol, 2023

²³ Y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd

Ysgrifennydd y Cabinet, nid ystyriwyd bod angen ymgynghori ymhellach ar Fil drafft.²⁴

24. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym hefyd fod y gwaith o ddatblygu'r Bil wedi cael ei wneud dros gyfnod hir o amser. Ychwanegodd:

*"In fact, it's probably approaching 10 years of discussion, but, since 2018, obviously we've had very detailed discussions. We've really been on a journey with stakeholders throughout this as well, and there's been really close engagement with officials through it."*²⁵

Hygyrchedd y ddeddfwriaeth

25. Ein dealltwriaeth ni yw bod y Bil yn defnyddio 34 o adrannau ac un Atodlen i ddiwygio 41 o adrannau yn Neddf 2014 ac i ychwanegu 12 o adrannau newydd at yr un Ddeddf honno.

26. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd hi'n ystyried bod y Bil yn hawdd i ddarllenydd ei ddeall. Fe wnaethom hefyd holi a ofynnwyd i ddrafftwy'r deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ystyried rhoi Rhan 2 newydd yn lle Rhan 2 o Ddeddf 2014 yn hytrach na diwygio pob adran yn y modd y mae'r Bil wedi'i ddrafftio. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn glir beth yw'r newidiadau arfaethedig a beth fydd yn aros yr un fath. Ychwanegodd:

*"Replacing Part 2 of the Housing (Wales) Act was considered, but, on balance, a drafting choice, really, was made to amend that Part 2. But, once the legislation is in force, all readers will be able to access a comprehensive version of Part 2 as amended. So, we have really looked at this, and, as I say, it was mainly a drafting choice that was made there."*²⁶

27. Ychwanegodd swyddog Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol yn y cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

"... just to add to what the Cabinet Secretary was saying, local authorities are familiar with the existing legislation, so having

²⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [17]. Gweler hefyd Cofnod y Trafodion [21] i [24].

²⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [20]

²⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [26]. Gweler hefyd Cofnod y Trafodion [28].

an amending Bill we think should enable smoother implementation, because it's easier to see where the amendments have been made. But, as the Cabinet Secretary has said as well, once the legislation is in force, then everyone—readers, local authorities et cetera—will be able to access a comprehensive version of the legislation on the legislation.gov website.”²⁷

Cydbwysedd rhwng y manylion ar wyneb y Bil a phwerau dirprwyedig

28. Mae'r Bil yn cynnwys 12 o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ac un pŵer i wneud gorchmynion. Ceir crynodeb o'r rhain yn Nhabl 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol.

29. Ym mharagraff 14 o'r Memorandwm Esboniadol, noda Ysgrifennydd y Cabinet:

“Mae'r Bil yn rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd. Mae angen pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd penodol er mwyn cynnig ffordd fwy hyblyg a chynnil o weithredu sy'n gynaliadwy. Bydd y pwerau hyn i wneud is-ddeddfwriaeth, yn y rhan fwyaf o achosion yn darostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.”

30. Bydd y rhan fwyaf o'r pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil, pan gânt eu harfer, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, gan gynnwys tri phŵer Harri VIII yn adrannau 21(2), 32(2), a 41. Ceir pwerau yn y Bil a fydd yn ddarostyngedig i weithdrefn ddirymu'r Senedd, sy'n cynnwys pwerau yn:

- adran 23(4) - ystyr “llety addas” at ddibenion adrannau 108A a 109 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2014;
- adran 35(4) - pŵer i ragnodi dosbarthiadau o bersonau y gellir eu trin neu na ellir eu trin fel personau cymhwysol y dylid rhoi blaenoriaeth resymol iddynt wrth ddyrannu tai, ac i ragnodi meini prawf na chaniateir i awdurdodau tai lleol eu defnyddio wrth benderfynu pa ddosbarthiadau o bersonau nad ydynt yn bersonau cymhwysol;

²⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [29]

- adran 38 - pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â chofrestrau tai cyffredin;
- adran 41 - pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol (gweithdrefn ddirymu oni bai ei bod yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ac yn yr achos hwnnw, gweithdrefn gymeradwyo).

31. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi canllawiau. Ceir crynodeb o'r rhain yn Nhabl 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol. Ni fydd y canllawiau sydd i'w rhoi gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn yn y Senedd.

Gweithrediad arfaethedig y Bil

32. O ystyried datganiadau Ysgrifennydd y Cabinet bod datblygiad y Bil wedi cymryd 10 mlynedd o drafodaeth²⁸, gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau na fyddai rhai o brif elfennau'r ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym tan 2030-31. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y diwygiad strwythurol yn ei gwneud yn ofynnol i'r system gyfan fod yn barod ar gyfer pawb sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

“So, there’s still a lot to do there, and I do understand we all want things to happen as quickly as possible. It’s definitely saying this system really needs change. Doing nothing isn’t an option. But there is time within that, and that’s what some of the discussions that we’ve had with the sector more widely as to how we can implement this have been really important.

Just to say, we’re not waiting for 2031 either to start everything. We’ve already been working with local authorities to prepare for the change, and there have been some really, really good examples that I’ve seen when I’ve been out and about in Wales, listening to local authorities who’ve restructured internally within their system, which has been really effective. They’re preparing for this legislation. And one of the benefits of the long development of this has been that local authorities and others have seen what we’re trying to get to, and importantly, taking them with us.

²⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [20]

But I do recognise there's need for a phased approach with this legislation. So, I've been really clear, and that's come through with discussions we have had with local authorities. The first point I see would be embedding those preventative duties and multi-agency working at the start, and then moving on to more of those areas such as full removal of priority need and intentionality tests coming a bit later, but again, working with local authorities.

But I just want to be clear that the 2031 date within the regulatory impact assessment is not about delaying anything. It's about making sure that we've got that effective way of doing it in a properly balanced way in that phased approach, so that we have got the time to do this and to take those authorities with us.”²⁹

33. Pan ofynnwyd iddi a ellid gohirio'r gweithrediad arfaethedig ymhellach ac, felly, a ddylid cael amserlen sefydlog a chlir ar gyfer gweithredu prif ddarpariaethau'r Bil, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet drwy ddweud:

“We've used the 2030-31 dates just to aid in planning the cost implementation of the Bill, but exact timescales and the phased approach that I mention still needs to be agreed, and that's in discussion with our local authorities as well. As I said, I feel that, as I mentioned, we should do that preventative side to start off within terms of the priority need, and remove intentionality later. That's what I'm minded to do. But it's just important to look at it in that way, to try to tackle the pressures in the system at the moment, because the system that we have is pushing everybody to that crisis point. We need to try and take the pressure out of the system, and that's why that preventative side would come in first. But just to confirm that the 2030-31 date is just helping with the planning cost, but the exact timescale and the phasing of it does need to be agreed with local authorities, who are our key delivery partners in this.”³⁰

²⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [38] i [41]

³⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [43]

34. Yn y sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith y byddai gweithrediad arfaethedig y Llywodraeth o'r ddeddfwriaeth newydd yn ymestyn y tu hwnt i'r Seithfed Senedd ac i'r Wythfed Senedd. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd hi felly'n derbyn y ddadl y dylai'r ddeddfwriaeth gynnwys dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth yn y dyfodol werthuso llwyddiant y ddeddfwriaeth. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet drwy ddweud:

"Work is going on at the moment to ensure that we've got improvement around our data collection and that that aligns to the Bill and to strengthen the data that we currently have.

We are looking to replace aggregate data collection with individual level data collection as well, which will help us to follow an individual's journey through the homelessness system and will also help us in terms of monitoring and evaluating the impacts of our reforms, and hopefully to see how we will help with the prevention rates and relief for homelessness. It's also going to provide us with a rolling mechanism with which to assess the implementation of the Bill, particularly in relation to our RIA core scenario. But I am obviously very happy to reflect on any additional measures necessary through the next stages of scrutiny in terms of evaluation as well. I do recognise how important that is and, as you say, the length of time taken. So, I'm happy to reflect on that as well, after the committee has as well."³¹

Materion cyffredinol

35. Mae'r Atodlen i'r Bil yn cynnwys nifer o newidiadau i'r iaith ar draws sawl dyletswydd ddeddfwriaethol bresennol. Er enghraifft, mae'n rhoi "aelod o aelwyd y ceisydd" yn lle unrhyw "berson y mae'r ceisydd yn byw gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gydag ef". Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet egluro pam mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud, ac ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

"... the scope hasn't been narrowed, so there's no change to the people who are being captured. But, as you rightly say, the language has been updated and it's also meant to simplify the

³¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [46] a [47]

*language to make sure that it's consistent terminology as well. So, the legislation refers to people who live or reside with an applicant and people who might reasonably be expected to live or reside with them. So, instead, the Bill refers to a member of a person's household, which is defined in the Bill to capture all variations, which I think better describes what is meant."*³²

36. Gofynnwyd hefyd i Ysgrifennydd y Cabinet pam mae Deddf 1996 a Deddf 2014 wedi cael eu diffinio ar ddau achlysur gwahanol yn y Bil, yn adrannau 14 a 39, ac adrannau 1 a 39 yn y drefn honno. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y dewis drafftio hwn wedi'i wneud i gynorthwyo'r rhai sydd ond yn mynd i ddewis yr adrannau sy'n berthnasol, a'r rhai a allai fod eisiau darllen y cyfan drwyddo'n fanwl.³³

37. Yn y Memorandwm Esboniadol, noda Ysgrifennydd y Cabinet y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud i Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 i fynd i'r afael â materion ynghylch addasrwydd llety a ddarperir o dan swyddogaethau digartrefedd. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y gwelliannau hyn. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y byddai'n gweithio gydag awdurdodau lleol i lywio amseriad newidiadau deddfwriaeth eilaidd.³⁴

38. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oes unrhyw welliannau ynghylch drafftio neu fel arall y mae hi eisoes yn ystyried eu cyflwyno, pe bai'r Senedd yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Er iddi ddweud nad yw mewn sefyllfa i gadarnhau unrhyw welliannau ar hyn o bryd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fodlon gwneud rhai gwelliannau eglurhad yng Nghyfnod 2, ond y gallai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor pan fydd y manylion ar gael.³⁵

39. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y byddai'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newid yn y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio gweithdrefnau craffu'r Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth, yn

³² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [146]

³³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [148]

³⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnodion y Trafodion [132]

³⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [116]

unol â'r Ddeddf a ddeddfwyd yn ddiweddar, *Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru) 2025*.³⁶

Ein barn ni

40. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch datblygiad y Bil. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei Phapur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yn 2023. Serch hynny, bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ymwybodol o'n ffafriaeth hirsefydlog i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar Filiau drafft lle bo hynny'n briodol.

41. Mae gennym rai pryderon ynghylch hygyrchedd y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio a'i gyflwyno i'r Senedd. Er ein bod yn cydnabod bod y Memorandwm Esboniadol yn darparu Atodlen Keeling sy'n dangos sut olwg fyddai ar y llyfr statud os caiff y Bil ei basio, nid ydym yn ystyried bod y Bil yn hawdd ei ddilyn ac o ganlyniad nid yw'n hawdd deall pa newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y Bil drwy ddarllen y Bil ar ei ben ei hun.

42. Nodwn y sylwadau a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion, sef unwaith y bydd y ddeddfwriaeth mewn grym, y bydd modd i'r holl ddarllenwyr gael mynediad at fersiwn cynhwysfawr o Ran 2 fel y'i diwygiwyd ac y dylai Bil diwygio alluogi proses weithredu fwy didrafferth oherwydd ei bod yn haws gweld lle y mae'r gwelliannau wedi'u gwneud. Rydym hefyd yn nodi datganiad Ysgrifennydd y Cabinet a nododd fod diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn glir beth yw'r newidiadau arfaethedig a'r hyn a fydd yn aros yr un fath. Nid yw'r rhesymeg hon yn ein hargyhoeddi.

43. Yn rhannol, mae ein pryder yn deillio o'n gwybodaeth mai dim ond gwasanaethau â thâl, fel Westlaw a LexisNexis, sy'n darparu fersiynau cynhwysfawr o Ddeddfau fel y'u diwygiwyd mewn modd amserol. Mae'n annhebygol y bydd gwasanaethau o'r fath yn hygyrch iawn ac ar gael yn gyfleus i ddinasyddion Cymru y mae angen iddynt o bosibl ddeall y fframwaith ar gyfer deddfwriaeth digartrefedd a thai yng Nghymru ac felly eu hawliau o dan y ddeddfwriaeth hon. Yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2023-24, ar ei rhaglen ar ddyfodol cyfraith Cymru, mae'n cydnabod bod 6.5% o Ddeddfau a Mesurau Cymru sydd ar gael ar legislation.gov.uk wedi dyddio.³⁷ Efallai fod hyn yn ymddangos yn ffigur bach, ond mae'n dangos nad yw'r broses o asesu a yw'r

³⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [137] a [138]

³⁷ Llywodraeth Cymru, [Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 – Adroddiad Blynyddol 2023-2024](#), Rhagfyr 2024, paragraff 18. Roedd y ffigur yn gywir ddiwedd mis Medi 2024.

gyfraith y gellir cael mynediad ati am ddim ar y wefan honno yn gyfredol, ac felly'n gywir, yn gwbl ddibynadwy.

44. Mae gennym bryderon hefyd ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu darpariaethau'r Bil (pe bai'r Senedd yn ei basio a'i ddeddfu). Bydd cyfnod gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd gan y Llywodraeth yn ymestyn y tu hwnt i'r Seithfed Senedd ac i'r Wythfed Senedd, ffaith a amlygwyd gennym yn ein sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet.

45. O ystyried ein cylch gwaith a ffocws ein gwaith craffu, nid ydym yn teimlo y gallwn wneud sylwadau ar barodrwydd y sector a'i allu i reoli gofynion y ddeddfwriaeth newydd, ac felly'r cyflymder y gellir ei gweithredu'n llawn. Fodd bynnag, ein rôl ni yw helpu i sicrhau bod y Senedd yn gwneud cyfraith dda nad yw'n gor-ddirprwyo pŵer i'r weithrediaeth i'w ddefnyddio ar adeg amhenodol yn y dyfodol. Am y rheswm hwn, credwn y dylid cryfhau'r Bil i amddiffyn y Senedd a rôl ei haelodau a etholwyd yn ddemocrataidd.

Argymhelliad 2. Dylid diwygio'r Bil fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd i'r Senedd, erbyn diwedd 2028 fan bellaf, ar y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i symud ymlaen tuag at weithredu'r Ddeddf yn llawn. Dylid diwygio'r Bil hefyd fel bod angen cyflwyno adroddiad pellach gerbron y Senedd erbyn diwedd 2029 sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth weithredu'r Ddeddf. Rhaid i'r adroddiad cynnydd hwn gynnwys manylion unrhyw oedi i'r broses weithredu a amlinellwyd yn yr adroddiad cyntaf a'r rhesymeg dros yr oedi hyn.

Argymhelliad 3. Dylid diwygio'r Bil fel ei bod yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn gwerthuso'r Ddeddf, gan gynnwys ei heffeithiolrwydd wrth gyflawni ei hamcanion, erbyn diwedd 2033.

46. Rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i ddiweddarau'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu'r disgrifiadau newydd ar gyfer gweithdrefnau craffu'r Senedd a ddefnyddir yn Neddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025, yn dilyn trafodion cyfnod 2 ar y Bil (pe bai'r Senedd yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol yng nghyfnod 1).

47. Yn olaf, nodwn fod y Bil yn cynnwys 13 o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a gorchmynion, y mae tri o'r rheini'n bwerau Harri VIII, yn ogystal â nifer o bwerau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno canllawiau. Yn amodol ar ein sylwadau ar y pwerau a'r darpariaethau penodol yn y Bil, rydym yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys

mewn is-ddeddfwriaeth. Rydym yn trafod pwerau dirprwyedig penodol yn y Bil yn fanylach ym Mhennod 4 o'n hadroddiad.

4. Sylwadau penodol

48. Mae gan y Bil (fel y'i cyflwynwyd) 43 o adrannau, sydd wedi'u trefnu'n dair Rhan, ac un Atodlen.

- Mae Rhan 1 yn canolbwyntio ar ddigartrefedd;
- Mae Rhan 2 yn canolbwyntio ar ddyrannu tai cymdeithasol;
- Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaethau cyffredinol.

Rhan 1 y Bil

49. Mae Rhan 1 y Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch digartrefedd.

Adran 1 – ystyr “o dan fygythiad o ddigartrefedd”

50. Mae adran 1 o'r Bil yn diwygio adran 55 o Ddeddf 2014 fel bod unigolyn yn cael ei ystyried “o dan fygythiad o ddigartrefedd” os yw'n debygol y bydd yr unigolyn yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis, yn hytrach na'r cyfnod presennol o 56 diwrnod. Mae'r gwelliant hefyd yn nodi bod unigolyn o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw wedi cael hysbysiad ysgrifenedig yn ei gwneud yn ofynnol iddo ildio meddiannaeth o'i lety, neu os yw cais wedi'i wneud i'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol i adennill meddiant. Bwriedir i hyn ei gwneud yn glir i awdurdodau lleol fod hysbysiadau meddiant yn fygythiad o ddigartrefedd.

51. Mae tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gan banel o ymarferwyr cyfreithiol wedi awgrymu na fyddai hyn yn berthnasol i rai hysbysiadau cymryd meddiant, megis hysbysiad ôl-ddyledion rhent difrifol neu hysbysiad tor contract, a dylid asesu'r iaith i sicrhau ei bod mor gynhwysol ag y bwriedir iddi fod.³⁸ Mewn llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet yn dilyn ei sesiwn dystiolaeth gyda ni, gofynnwyd iddi a oedd hi'n fodlon bod yr adran 55(4)(a) newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf 2014 yn bodloni bwriad polisi Llywodraeth Cymru ac, os felly, sut. Fe wnaethom hefyd ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau ei dealltwriaeth ynghylch a yw'r ddarpariaeth newydd yn cwmpasu hysbysiadau ar wahân i hysbysiadau troi allan “heb fai” o dan adran 173 o *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*.³⁹

³⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [205]

³⁹ Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Mehefin 2025, cwestiwn 1

52. Mewn ymateb i hynny, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod o'r farn bod yr adran 55(4)(a) newydd, pan gaiff ei hystyried ynghyd â pharagraffau (b) a (c) o'r adran honno, yn bodloni bwriad y polisi. Ychwanegodd eu bod yn "caniatáu nid yn unig i bobl y mae'n ofynnol iddynt adael eu cartrefi gael mynediad at gymorth o dan y Ddeddf, ond hefyd i'r rhai y gallai fod yn ofynnol iddynt adael eu cartrefi yn y dyfodol agos".⁴⁰

53. I gyrraedd y farn hon, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet yr esboniad canlynol:

"Bwriad adran newydd 55(4)(a) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yw cofnodi hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson roi'r gorau i feddiannu ei lety, p'un a yw'n seiliedig ar fai ai peidio. Mae "hysbysiad" yn adran newydd 55(4)(a) o Ddeddf 2014 yn cynnwys nid yn unig hysbysiadau y caniateir eu cyflwyno mewn perthynas â chontractau meddiannaeth o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") ond hefyd hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson roi'r gorau i feddiannu ei lety, beth bynnag fo'r trefniadau sylfaenol. Er enghraifft, mae'n cynnwys hysbysiadau sy'n dod â threfniadau i ben lle mae person yn byw gyda landlord (sy'n dod y tu allan i'r diffiniad o "gontractau meddiannaeth" at ddibenion Deddf 2016) ac mae'n cynnwys hysbysiadau am feddiant a gyflwynwyd o dan Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i ddod â les hir i ben.

Mae adrannau newydd 55(4)(b) a (c) o Ddeddf 2014, ar y llaw arall, yn ymdrin â senarios lle gall fod yn ofynnol i berson roi'r gorau i feddiannu eu llety. O dan adran 55(4)(b), mae person "dan fygythiad o ddigartrefedd" os yw cais i'r llys wedi'i wneud am orchymyn meddiant. Ac o dan adran 55(4)(c) mae person o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol y bydd y person yn mynd yn ddigartref o fewn 6 mis.

Mewn perthynas â hysbysiadau o dan Ddeddf 2016 nad ydynt ohonynt eu hunain yn ei gwneud yn ofynnol i berson roi'r gorau i feddiannaeth (e.e. hysbysiad ôl-ddyledion rhent difrifol), ni fydd adran 55(4)(a) na (b) newydd o Ddeddf 2014 yn gymwys. Yn hytrach, o dan adran 55(4)(c) newydd o'r Ddeddf honno, byddai angen i awdurdod tai lleol asesu a yw'n debygol y bydd y

⁴⁰ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 17 Gorffennaf 2025, tudalen 1

person yn dod yn ddigartref o fewn 6 mis, ac os yw hysbysiad wedi'i gyflwyno o dan Ddeddf 2016, byddai hynny'n ystyriaeth berthnasol at y diben hwnnw.

Felly, rwy'n credu bod adran newydd 55(4)(a) o'i hystyried ynghyd â pharagraffau (b) a (c) o'r adran honno yn bodloni'r bwriad polisi. Maent yn caniatáu nid yn unig i bobl y mae'n ofynnol iddynt adael eu cartrefi gael mynediad at gymorth o dan y Ddeddf, ond hefyd i'r rhai y gallai fod yn ofynnol iddynt adael eu cartrefi yn y dyfodol agos.”⁴¹

Adran 12 – Ystyr cysylltiad lleol

54. Mae adrannau 11 i 17 o'r Bil yn diwygio Deddf 2014 ac yn gwneud darpariaeth ynghylch atgyfeiriadau yn sgil cysylltiadau lleol.

55. Mae adran 12 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r amgylchiadau lle y bydd unigolyn yn cael ei drin fel rhywun sydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cysylltiad lleol. Bydd y meini prawf presennol ar gyfer pennu cysylltiad lleol ar lefel awdurdod lleol yn aros yr un fath. Bwriad Llywodraeth Cymru yw darparu mwy o sicrwydd ac eglurder ynghylch pryd y mae rhywun wedi datblygu cysylltiad lleol, sydd wedi'i nodi mewn canllawiau ar hyn o bryd. Mae Adran 6 o'r Bil yn cynnwys y ddyletswydd ar awdurdodau tai lleol i sicrhau llety i bobl ddigartref gymwys sydd â chysylltiad lleol â Chymru.

56. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio'r newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'r prawf cysylltiad lleol â Chymru, a dywedodd wrthym:

“The Bill, as you'll know, will enable Welsh Ministers to prescribe categories of people who are not subject to that local connection test, and the Bill retains the current definition of local connection, but section 12 of the Bill contains regulation-making powers that will help us add detail to definitions in partnership with stakeholders. So, the powers allow us to reconsider the scope and function of local connection over time, and I do hope that that will offer a route for assisting particular groups who encounter connections in the future, such as, potentially, veterans or care leavers. Currently, local connection should only be considered where a local authority is

⁴¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 17 Gorffennaf 2025, tudalen 1

of the view that an individual should be referred to another local authority for assistance. It is not used to determine whether someone is owed a duty by an authority. So, they are the changes.”⁴²

57. Pan ofynnwyd iddi a fyddai’n well nodi ar wyneb y Bil rai o’r categorïau ychwanegol y mae’n rhagweld y byddant yn cael eu heithrio o’r ddarpariaeth cysylltiad lleol honno at ddibenion eglurder a sicrwydd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cymhlethdodau o ran sut y mae’r system yn gweithio ar draws ffiniau. Aeth ymlaen i ddweud:

“Historically, the system has been very similar between the rest of the UK. Obviously, we’ve got a long and porous border, and I just believe that this way will enable local authorities, and the system that we have, to protect people and to support people that we have here in our communities in Wales. We believe that we’ve got changes to make in relation to the tests around prevention, allocations. They are really transformative ways forward. They’re going to make a real difference. But I’ve got to ensure that our system can sustain our intended practice.”⁴³

58. Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Our White Paper did consider the impact of local connection tests for certain groups, including young people, for example. But, just to be clear, the White Paper didn’t propose particular exemptions for those groups as specific exemptions to a local connection referral; it did propose further consideration how special circumstances criteria could be applied to those groups. But I think, this way, we’ve been able to listen to the feedback from local authorities throughout the development of the Bill, which I think has been really important in how we’ve been able to take the Bill forward. As I said, there’s been a lot going on in terms of the development of this, but I think it’s also important we listen to the feedback from that, and this came across very clearly from the feedback.”⁴⁴

⁴² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [85]

⁴³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [87]

⁴⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [88]

59. Yna gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd wedi ystyried ychwanegu grwpiau penodol ar wyneb y Bil, gan brofi'r darpariaethau hynny yn ymarferol, wrth gael y pŵer i ddileu'r eithriadau hynny os oes angen. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ailystyried cwmpas a swyddogaeth cysylltiad lleol dros amser ond bod yn rhaid gwneud hynny'n ofalus.⁴⁵

60. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y bydd yr amgylchiadau arbennig sy'n cysylltu unigolyn ag ardal yr un fath ledled Cymru.⁴⁶

Adrannau 21 a 22 – Dyletswydd i ofyn a gweithredu

61. Mae adran 21 y Bil yn mewnosod dwy adran newydd yn Neddf 2014 – adrannau 94A a 94B. Mae adran 94A yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig i nodi achosion lle y gallai unigolion fod yn ddigartref neu'n wynebu risg o fod yn ddigartref, ac yna'n gofyn am gydsyniad yr unigolyn i wneud atgyfeiriad at yr awdurdod tai lleol ar ei ran. Byddai'n ofynnol hefyd i'r awdurdodau penodedig ddarparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth eraill, ac ystyried a oes unrhyw gamau eraill y gallent eu cymryd yn rhesymol i helpu'r unigolyn i sicrhau neu gadw ei lety.

62. Mae'r adran 94B newydd yn pennu'r awdurdodau cyhoeddus canlynol:

- awdurdod gwasanaethau cymdeithasol;
- Bwrdd Iechyd Lleol, ond dim ond mewn perthynas ag unigolion y mae'n darparu neu'n trefnu gwasanaethau gofal iechyd iddynt nad ydynt yn wasanaethau gofal sylfaenol;
- Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- landlord cymdeithasol cofrestredig;
- corfforaeth tref newydd ar gyfer ardal yng Nghymru;
- darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig sy'n darparu tai yng Nghymru;

⁴⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [93]. Gweler hefyd Cofnod y Trafodion [95].

⁴⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [97]

- ymddiriedolaeth gweithredu tai ar gyfer ardal yng Nghymru;
- llywodraethwr carchar yng Nghymru;
- cyfarwyddwr carchar ar gontract yng Nghymru;
- llywodraethwr sefydliad troseddwr ifanc yng Nghymru;
- llywodraethwr canolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru;
- cyfarwyddwr canolfan hyfforddi ddiogel ar gontract yng Nghymru;
- pennaeth coleg diogel yng Nghymru;
- tîm troseddwr ifanc sydd wedi ei sefydlu o dan adran 39(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37) ar gyfer ardal yng Nghymru;
- rheolwr cartref diogel i blant yng Nghymru;
- darparwr gwasanaethau prawf yng Nghymru;
- swyddog sydd wedi ei gyflogi gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn swyddfa yng Nghymru a elwir yn swyddfa Canolfan Byd Gwaith;
- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, ond dim ond mewn perthynas ag aelodau o luoedd arfog rheolaidd y Goron.

63. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr. Yn y Memorandwm Esboniadol, noda Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rhestr dyfu dros amser.⁴⁷

64. Mae adran 22 yn diwygio Deddf 1996 fel bod cyrff cyhoeddus penodedig sydd eisoes yn ddarostyngedig i "ddyletswydd i atgyfeirio" debyg yn Lloegr hefyd yn atgyfeirio unigolyn i Gymru pan fo'r person yn nodi awdurdod tai lleol yng Nghymru ac yn cydsynio i gael ei atgyfeirio.

65. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet pam mae angen y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 21 a pham nad oedd rhestr derfynol o gyrff cyhoeddus eisoes wedi'i nodi ar wyneb y Bil. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"Public services change over time, so that's why we have the flexibility so that list of public bodies remains current and does reflect the changing profile of public services. The regulation-

⁴⁷ Memorandwm Esboniadol, tudalen 23, paragraff 94

making power will be subject to the approval procedure, and, as such, the Senedd will be provided with the opportunity to consider and vote on any proposed regulations.”⁴⁸

66. Nid yw gwasanaethau gofal sylfaenol sydd wedi’u contractio wedi’u rhestru yn adran 21 y Bil. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y canlynol wrthym:

“... NHS Wales has a different contractually based relationship with this element of the health service. But we do recognise how important a role primary care services do play in homelessness, and work is under way with health services to meet our policy objectives outside of that legislation.”⁴⁹

67. Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet bapur briffio inni mewn perthynas â chymhwysu’r ddyletswydd i “ofyn a gweithredu” i gontractwyr gofal sylfaenol.⁵⁰ I grynhoi, dywed Ysgrifennydd y Cabinet yn y papur briffio:

“Nid yw gwasanaethau Gofal Sylfaenol wedi’u contractio wedi’u cynnwys yn y Bil oherwydd nad ydynt yn gyrff cyhoeddus ac mae gan GIG Cymru berthynas wahanol, ar sail cytundeb â’r elfen hon o wasanaethau iechyd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn ei chwarae mewn digartrefedd, ac mae gwaith ar y gweill gyda gwasanaethau iechyd i gyflawni ein hamcanion polisi y tu allan i’r deddfwriaeth.”⁵¹

68. Nid yw heddluoedd a swyddogion wedi’u rhestru yn adran 21 y Bil ychwaith. Mewn tystiolaeth i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni Ysgrifennydd y Cabinet fod gan swyddogion yr heddlu ddyletswydd unigol sy’n wahanol i ddyletswydd gweithiwr cymdeithasol neu swyddog prawf, ac nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried goblygiadau’r gwahaniaethau hyn ar ddrafftio darpariaethau deddfwriaethol eto.⁵² Dywedwyd wrth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai hefyd fod Ysgrifennydd y Cabinet yn gobeithio cyflwyno

⁴⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [60]

⁴⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [62]

⁵⁰ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 17 Gorffennaf 2025, Atodiad A

⁵¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 17 Gorffennaf 2025, Atodiad A

⁵² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [116]

gwelliannau i'r Bil yn ddiweddarach.⁵³ Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet am eglurder ar y materion hyn. Ymatebodd drwy ddweud:

*"In terms of the police, officials continue to develop our policy. Again, that's in discussion with UK Government in relation to the role of policing and 'ask and act', and that's including our work on Minister of the Crown consents, so those discussions, as I say, are ongoing. At the moment, I'm unable to indicate when we might be in a position to make potential amendments, but I can assure you that we'll work as quickly and as effectively as we can on the matter."*⁵⁴

69. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau am y materion hyn gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.⁵⁵ Ychwanegodd swyddog Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol yn y cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

*"We have done some testing and engagement with operational policing in Wales, and we also run a long-standing post-custody accommodation working group on which the police are represented. But we have specifically, on the provisions in the Bill, engaged with policing in Wales, and we'll continue to do so."*⁵⁶

70. Fe wnaethom nodi nad oes gweithdrefn graffu gan y Senedd ar gyfer y canllawiau y gall Gweinidogion Cymru eu rhoi o dan adran 21(3). Gofynnwyd a yw Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn y dylai'r canllawiau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn dirymu canllawiau drafft. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"The guidance procedure in relation to the duty to 'ask and act' will provide operational or practical assistance; it will not impose a new legal obligation. So, the absence of Senedd scrutiny reflects the nature of the guidance as an administrative tool rather than a legislative instrument, and that is consistent."*⁵⁷

⁵³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [123]

⁵⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [74]

⁵⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [76]

⁵⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [77]

⁵⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [79]

71. Yn ein llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dyddiedig 27 Mehefin 2025, gofynnwyd cwestiwn pellach ynghylch adran 21 y Bil, fel a ganlyn. Mae'r ddyletswydd "gofyn a gweithredu" yn gymwys os yw awdurdod cyhoeddus penodedig "yn ystyried" bod unigolyn yng Nghymru y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, tynnodd ymarferwyr cyfreithiol sylw at y ffaith y gallai "rheswm i gredu" fod yn iaith fwy addas gan mai dyma'r iaith a ddefnyddir yn Neddf 2014 mewn perthynas â dyletswyddau awdurdodau lleol. Awgrymwyd hefyd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y gallai'r ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodol i "ystyried" yn adran newydd 94A((5)(b) a (c) fod yn gryfach, ac y byddai dyletswydd "i ddarparu" yn fwy cadarn o safbwynt gorfodi'r Bil.⁵⁸ Felly, gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd hi'n ystyried bod y term "ystyried" yn briodol i'w ddefnyddio yn adran 21, ac a ellid defnyddio iaith arall yn lle hynny i sicrhau cysondeb â Deddf 2014.⁵⁹ Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet drwy ddweud:

"Yng nghyd-destun adran 94A newydd o Ddeddf 2014, nid wyf yn credu y byddai gwahaniaeth sylweddol mewn ystyr pe baem wedi defnyddio bod â "rheswm i gredu" yn hytrach nag "ystyried". Y rheswm dros ddefnyddio "ystyried" yn y ddarpariaeth hon yw er mwyn cysondeb â iaith adran 213B o Ddeddf Tai 1996, gan y bydd (yn fras) yr un cyrff yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i "ofyn a gweithredu" o dan adran 94A newydd o Ddeddf 2014 mewn perthynas â Chymru a'r ddyletswydd i gyfeirio o dan adran 213B o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996") mewn perthynas â Lloegr. Mae yna, felly, werth mewn defnyddio'r un iaith yn y ddwy ddarpariaeth.

Rydych hefyd yn nodi tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai'r ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodol i "ystyried" yn adran newydd 94A(5)(b) a (c) fod yn gryfach, a byddai dyletswydd "i ddarparu" yn fwy cadarn o safbwynt gorfodi.

Mae'r ddyletswydd yn adran 94A(5)(b) yn gofyn am fwy nag ystyried a ddylid cymryd camau. O dan yr adran honno, os yw awdurdod cyhoeddus penodol o'r farn bod unrhyw gamau eraill y gallai eu cymryd yn rhesymol i helpu'r person i sicrhau neu gadw llety, rhaid iddo gymryd y camau hynny. Mae hyn yn

⁵⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [237] i [240]

⁵⁹ Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Mehefin 2025, cwestiwn 2

caniatáu i'r awdurdod cyhoeddus penodol benderfynu pa gamau a allai fod yn briodol i'w cymryd. Mae hyn yn bwysig gan y bydd angen ystyried y camau sy'n ofynnol mewn perthynas ag unigolyn fesul achos ac mae'r awdurdodau cyhoeddus penodedig yn y sefyllfa orau i wneud yr asesiad ynghylch pa gamau y dylid eu cymryd (os o gwbl) mewn perthynas ag unigolyn penodol.

Mae'r ddyletswydd yn adran 94(5)(c) yn ddyletswydd i ystyried a yw barn yr awdurdod cyhoeddus penodedig bod person yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn effeithio ar arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r person. Unwaith eto, bydd angen asesu sut y dylid arfer swyddogaethau mewn perthynas ag unigolyn a allai fod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd fesul achos ac felly, unwaith eto, ni fyddai argymell y pethau penodol y dylid eu darparu neu eu gwneud mewn senarios penodol o dan yr adran hon yn briodol. Yr awdurdodau cyhoeddus penodedig eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i wneud yr asesiad hwn a darperir canllawiau i gynorthwyo'r ystyriaethau hyn.”⁶⁰

Adran 33 – Cydweithrediad rhwng landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol

72. Mae adran 33 yn mewnosod adran newydd 96A yn Neddf 2014, gan greu dyletswydd newydd ar landlordiaid cymdeithasol i gydymffurfio â chais gan awdurdod tai lleol i ddarparu llety addas i geisydd y mae'r brif ddyletswydd tai yn adran 75 yn ddyledus iddo. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol gydymffurfio â chais o'r fath o fewn cyfnod rhesymol oni fydd ganddynt resymau da dros beidio â gwneud hynny.

73. Mae'r adran yn diffinio 'landlordiaid cymdeithasol' fel landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu ddarparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig.

74. Mae'r adran newydd 96A yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau, ac mae'n nodi bod yn rhaid ymgynghori ag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol wrth ddatblygu'r canllawiau hynny.

⁶⁰ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 17 Gorffennaf 2025, tudalen 2

75. Mewn achosion pan na fydd landlord cymdeithasol yn cydymffurfio, mae'r adran 96B newydd yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru, a all gyfarwyddo'r landlord cymdeithasol i gydymffurfio â'r cais.

76. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet pam yr ystyrir ei bod yn briodol y gellid cyfarwyddo landlord cymdeithasol i ddarparu llety o dan yr adran 96B newydd pan na fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r canllawiau hynny. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrthym:

*"So, provisions were made to enable Welsh Ministers to give guidance because we recognise that it will assist social landlords and local housing authorities to have clarity about what's expected. It is our intention to issue guidance. Generally, legislation confers power to issue guidance, rather than imposes a duty to do so, so that's the approach taken. The approach is not intended to suggest that guidance will not be issued; it's done to provide that degree of flexibility. But if it would provide assurance to the committee that this guidance will be provided, I am content to bring forward an amendment to change the guidance power to a 'must'."*⁶¹

Ein barn ni

77. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet mewn cysylltiad ag adran 1 o'r Bil, ac rydym yn fodlon ar hynny.

78. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet mewn cysylltiad ag adran 12 y Bil. Yn benodol, nodwn y bydd yr adran yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r amgylchiadau pan fydd unigolyn yn cael ei drin fel rhywun sydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cysylltiad lleol. Rydym hefyd yn cydnabod cadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet y bydd yr amgylchiadau arbennig sy'n cysylltu unigolyn ag ardal yr un fath ledled Cymru.

79. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet mewn cysylltiad ag adrannau 21 a 22 y Bil. Yn benodol, nodwn fod y Bil yn darparu pŵer gwneud rheoliadau Harri VIII i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr a bod Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i'r rhestr dyfu dros amser.

⁶¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [118]

Casgliad 2. Er ein bod yn cydnabod y rhesymeg a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch pam nad oes rhestr lawn a therfynol o gyrff cyhoeddus y disgwylir iddynt fod yn ddarostyngedig i'r 'ddyletswydd gofyn a gweithredu' eisoes wedi'i nodi ar wyneb y Bil, rydym yn ystyried hyn yn destun gofid o safbwynt hygyrchedd y gyfraith.

80. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet mewn cysylltiad ag adran 33 y Bil. Yn benodol, nodwn y bydd yr adran 96A newydd yn Neddf 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol. Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, ni fydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cynhyrchu a chyhoeddi'r canllawiau hyn. Rydym yn cydnabod sicrwydd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi, ac yn cydnabod ymhellach ei hawgrym y gellid diwygio'r Bil fel ei bod yn ofynnol bod Weinidogion Cymru yn darparu'r canllawiau yn hytrach na chael eu galluogi i wneud hynny. Croesewir hyn.

Rhan 2 y Bil

81. Mae Rhan 2 y Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch dyrannu tai cymdeithasol.

Adran 35 – Dyrannu llety tai o dan Ran 6 Deddf Tai 1996

82. Mae adran 35 yn rhoi'r disgresiwn i awdurdodau tai lleol benderfynu pa ddosbarthiadau o bobl sy'n 'bersonau cymhwysol' neu beidio i gael tai cymdeithasol yn eu hardal, ar yr amod nad ydynt yn anghymwys i gael dyraniad. Bwriedir i hyn reoli ffigurau rhestrau aros a'i gwneud yn haws i'r bobl â'r angen mwyaf gael tai.

83. Mae'r adran hefyd yn creu pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi dosbarthiadau o bobl sydd i'w trin neu nad ydynt i'w trin fel personau cymhwysol y mae ffafriaeth resymol yn ddyledus iddynt wrth ddyrannu tai cymdeithasol.

84. Mae'r adran hefyd yn diwygio adran 160A(7) o Ddeddf 1996, sy'n galluogi awdurdod tai lleol i anghymhwysu unigolyn rhag cael dyraniad os bu'r unigolyn hwnnw, neu aelod o'i aelwyd, yn euog o 'ymddygiad annerbyniol' sy'n ddigon difrifol i'w wneud yn anaddas fel tenant. Mae'r diwygiad yn ceisio ei gwneud yn gliriach bod yn rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad hwnnw'n digwydd eto, ac felly, os yw'r person wedi cymryd camau i newid ei ymddygiad, na fydd ei hanes blaenorol yn parhau i effeithio ar ei sefydlogrwydd o ran tai.

Adran 36 – Dim ffafriaeth i bersonau sy'n ceisio manipiwleiddio'r system dai

85. Mae adran 36 yn cyflwyno prawf manipiwleiddio bwriadol newydd – drwy gynnwys adran newydd 167A yn Neddf 1996 – a fydd yn gymwys pan fydd awdurdodau lleol yn canfod bod ceisydd wedi ceisio manipiwleiddio'r system ddigartrefedd yn fwriadol er mwyn cael mantais wrth wneud cais am dai cymdeithasol.

86. Ni fyddai'r prawf yn effeithio ar fynediad at gymorth digartrefedd statudol ond byddai'n golygu na roddir unrhyw ffafriaeth i'r ceisydd ar gyfer dyraniad tai cymdeithasol. Y bwriad yw efelychu effaith anghymhellol y prawf bwriadoldeb.

87. Fodd bynnag, nid yw adran newydd 167A(2)(b)(ii) yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn fod wedi cael unrhyw fwriad i fanipiwleiddio'r system yn fwriadol. Fe wnaeth ymarferwyr cyfreithiol a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gwestiynu a yw'r prawf newydd yn rhy eang ac a yw'n wahanol o gwbl i'r prawf bwriadoldeb sy'n cael ei ddileu gan adran 10 o'r Bil. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd ganddi unrhyw bryderon y gallai fod canlyniadau anfwriadol yn sgil y ffordd y mae'r adran 167A(2)(b)(ii) newydd wedi'i drafftio, neu efallai nad yw'r ffordd y cafodd ei drafftio yn bodloni bwriad polisi Llywodraeth Cymru.⁶² Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet gan ddweud:

“Mae'r prawf manipiwleiddio bwriadol newydd a'r prawf bwriadol presennol yn wahanol mewn dwy ffordd wahanol. Y gwahaniaeth cyntaf yw bod y profion yn gweithredu ar wahanol systemau deddfwriaethol. Mae'r prawf sydd yn adran 77 o Ddeddf 2014 yn ymwneud â'r hawl i gymorth i bobl ddigartref o dan y Ddeddf honno, ac mae dileu'r prawf hwnnw yn bodloni'r bwriad polisi o beidio â gwrthod cymorth digartrefedd i bersonau a allai fod yn ddigartref yn fwriadol. Mae adran newydd 167A o Ddeddf 1996, ar y llaw arall, yn ymwneud â hawl i ddyrannu tai cymdeithasol ac mae'r ddarpariaeth yn ceisio atal pobl rhag gwneud pethau neu fethu â gwneud pethau at ddibenion gwella eu siawns o gael llety cymdeithasol. Nid oes prawf o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd.

Yr ail wahaniaeth yw, er bod y profion yn ymddangos yn debyg, mae'r prawf yn adran newydd 167A o Ddeddf 1996 yn gulach na'r prawf yn adran 77 o Ddeddf 2014. Mae adran newydd

⁶² Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Mehefin 2025, cwestiwn 3

167A(2)(a) a (b)(ii) o Ddeddf 1996 yn darparu bod person yn ceisio manipiwleiddio y system dai os yw'r person wedi gwneud rhywbeth neu heb wneud rhywbeth a arweiniodd at roi'r gorau i feddiannu eu llety a chyn gwneud y peth hwnnw (neu beidio â'i wneud) cawsant gyngor a oedd â'r bwriad o'u galluogi i aros yn eu cartref. Mewn geiriau eraill, gall personau sy'n cael eu hysbysu'n briodol ynghylch canlyniadau posibl eu gweithredoedd (neu ddiffyg) fod yn ceisio manipiwleiddio y system dai, ond ni fyddai pobl sy'n gwneud rhywbeth (neu heb wneud rhywbeth) heb gael eu hysbysu'n llawn am ganlyniadau gwneud y peth hwnnw (neu beidio â'i wneud) yn ceisio manipiwleiddio y system. Mae hyn yn wahanol i'r prawf yn adran 77 o Ddeddf 2014, lle gallai person fod yn fwriadol ddigartref os y gwnaeth rhywbeth (neu na wnaeth rhywbeth) a arweiniodd at fod yn ddigartref - waeth a oeddent yn deall canlyniadau eu gweithredoedd (neu hepgoriadau) yn llawn.

Rwy'n credu bod y prawf yn adran newydd 167A yn bodloni'r bwriad polisi ac yn disgrifio'n ddigonol y gweithredoedd neu'r hepgoriadau sydd wedi'u bwriadu i geisio manipiwleiddio y system neilltuo tai (bydd canllawiau yn offeryn pwysig wrth nodi rhagor o fanylion). Rwy'n fodlon nad yw'r ddarpariaeth yn rhy eang; mae'n gulach na'r prawf yn adran 77 o Ddeddf 2014 sy'n cael ei ddileu gan y Bil.”⁶³

Adran 38 - Cofrestrau tai

88. Mae adran 38 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol yn gweithredu cofrestr dai gyffredin, sef un gofrestr ar gyfer pawb sydd wedi gwneud cais am dai cymdeithasol yn yr ardal.

89. Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir bod 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn gweithredu cofrestrau tai cyffredin. Bwriad Llywodraeth Cymru yw symleiddio'r broses o wneud cais am dai cymdeithasol ym mhob ardal.

90. Mae adran 38 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn gweithredu cofrestr dai hygyrch, i gynnwys yr holl dai yn yr ardal sydd â nodweddion a allai gynorthwyo unigolyn anabl.

⁶³ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Llywodraeth Leol a Thai, 17 Gorffennaf 2025, tudalen 3

91. Mae adran 38 yn mewnosod adrannau 160D a 160E newydd yn Neddf 1996. Gall rheoliadau a wneir o dan adrannau newydd 160D a 160E roi swyddogaethau i awdurdodau tai lleol. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet pam ei bod yn ystyried ei bod yn briodol y dylai rheoliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn ddirymu. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

*"Given the technical nature of these regulations, I am satisfied that the annulment procedure is appropriate and consistent with similar existing powers relating to the allocation of social housing accommodation."*⁶⁴

Ein barn ni

92. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet mewn cysylltiad ag adran 35. Nodwn hefyd fod yr adran yn dirprwyo pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n eu galluogi i ragnodi dosbarthiadau o bobl sydd i'w trin neu nad ydynt i'w trin fel personau cymhwysol y mae ffafriaeth resymol yn ddyledus iddynt wrth ddyrannu tai cymdeithasol. Bydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

Argymhelliad 4. Dylid diwygio'r Bil fel bod rheoliadau a wneir o dan adran 160A o *Ddeddf Tai 1996*, fel y'u diwygiwyd gan adran 35 y Bil, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

93. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet mewn cysylltiad ag adran 36. Rydym hefyd yn cydnabod y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r pryderon a godwyd y gallai fod canlyniadau anfwriadol yn sgil y ffordd y mae'r adran 167A(2)(b)(ii) newydd wedi'i drafftio. Cyfrifoldeb Ysgrifennydd y Cabinet yw sicrhau bod y Bil fel y'i draftiwyd yn cyflawni bwriadau Llywodraeth Cymru; mae hefyd yn gyfrifol am y sicrwydd ynghylch y bwriadau hynny a roddwyd i randdeiliaid ac i'r Senedd.

94. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet mewn cysylltiad ag adran 38. Gan y gall rheoliadau a wneir o dan adrannau newydd 160D a 160E roi swyddogaethau i awdurdodau tai lleol, nid ydym yn ystyried y bydd y weithdrefn ddirymu yn rhoi'r lefel briodol o graffu i'r Senedd.

Argymhelliad 5. Dylid diwygio'r Bil fel bod rheoliadau a wneir o dan adrannau newydd 160D a 160E o *Ddeddf Tai 1996*, fel y'u mewnosodwyd gan adran 38 y Bil, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

⁶⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [57]

Rhan 3 y Bil

95. Mae Rhan 3 y Bil yn gwneud darpariaethau cyffredinol.

Adran 40 ac Atodlen 1 – Mân ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol

96. Mae adran 40 y Bil yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 1996, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf 2014.

97. Mae Atodlen 1 i'r Bil yn defnyddio'r gair "shall" wrth nodi bod yn rhaid i awdurdodau tai lleol yng Nghymru roi sylw i ganllawiau, ac yn defnyddio "shall" eto wrth nodi bod yn rhaid i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gael eu gwneud drwy offeryn statudol Cymreig.

98. Mae paragraff 3.14 yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru Drafftio Deddfau i Gymru yn nodi na ddylai deddfwriaeth Cymru ddefnyddio "shall" yn y testun Saesneg, ac yn nodi y dylai darpariaethau sy'n gosod rhwymedigaethau ddefnyddio "must", gan fod "shall" yn amwys. Felly, fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet pam mae'r Bil yn defnyddio "shall" yn lle "must".⁶⁵ Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

*"Mae adran 169 o Ddeddf 1996 yn defnyddio "shall" ac mae'r diwygiadau i'r adran honno a wneir gan baragraffau 5(b) a 6(b) o'r Atodlen i'r Bil yn defnyddio "shall" i fod yn gyson â iaith yr adran honno (gweler hefyd paragraff 7:30(2) o Writing Laws for Wales, sy'n datgan, wrth ddiwygio deddfwriaeth bresennol, efallai y byddai'n briodol defnyddio "shall" yn y testun a fewnosodir yn agos at ddarpariaethau presennol sydd eisoes yn defnyddio "shall" yn yr un modd)."*⁶⁶

Ein barn ni

99. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet mewn cysylltiad ag adran 40 ac Atodlen 1 o'r Bil.

⁶⁵ Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Mehefin 2025, cwestiwn 4

⁶⁶ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 17 Gorffennaf 2025, tudalen 3